

DEDDF PRIFFYRDD 1980 - ADRAN 184

Cais am ganiatâd i adeiladu/newid mynedfa i gerbydau i'r heol fawr.

1. ENW A CHYFEIRIAD YR YMGEISYDD	
Ffôn:	Ebost:

2. ENW A CHYFEIRIAD YR ASIANT (os yn gymwys)	
Ffôn:	Ebost:

3. LLEOLIAD/CYFEIRIAD Y GWAITH ARFAETHEDIG	
RHIF Y FFORDD: ADEILADU MYNEDFA NEWYDD [____]	CYFEIRNOD GRID: NEWID Y FYNEDFA BRESENNOL [____]

4. CANIATÂD CYNLLUNIO Atgoffir y cleient y gallai fod angen caniatâd neu drwydded o fath arall arno cyn dechrau'r gwaith. Bydd angen caniatâd cynllunio yr awdurdod cynllunio lleol i greu neu newid mynedfa i gerbydau i Ffyrdd Dosbarthedig (h.y. Ffyrdd Cysylltu, Dosbarth A, B ac C). Er na fydd angen caniatâd cynllunio i gynnal gwaith ar Ffyrdd Di-Ddosbarth , fe allai'r awdurdod priffyrdd osod rhai amodau. Er mwyn osgoi unrhyw oedi, helpwch ni trwy ateb y canlynol: a) Ydych chi wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio? YDW/NAC YDW (<i>dileer yn ôl y gofyn</i>) b) Os YDYCH, rhowch ddyddiad y cais: [] a'i gyfeirnod: [] c) Beth oedd canlyniad eich cais? (<i>ticiwch y blwch</i>) (i) Rhoddwyd [] (ii) Gwrthodwyd [] (iii) Dim penderfyniad eto []

5. DATGANIAD Cadarnhaf fod y manylion uchod yn gywir a'm bod yn deall bod yn rhaid cynnal y gwaith y cyfeirir ato uchod yn unol â gofynion Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Stryd 1991 a deddfwriaeth alluogi a Chodau Ymarfer, ynghyd ag unrhyw amodau a fynir gan yr Awdurdod yn y caniatâd a roddir. Amgaeaf y planiau a ganlyn: 1 copi o'r planiau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, neu 1 copi o blan y safle ar raddfa heb fod yn llai na 1:5000 a 1 copi o blan lleol ar raddfa o 1:1250, 1:2500 neu 1:10,000 Arwyddwyd: _____ Dyddiad: _____ Dylid dychwelyd y cais i gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk neu i'r cyfeiriad post uchod. Ar ôl i'ch cais gael ei gofnodi, byddwch yn cael rhif cyfeirnod a dewisiadau ar gyfer talu ffi'r drwydded.

NODIADAU ESBONIADOL

DEDDF DIOGELU DATA

Cedwir y wybodaeth a gynhwysir yn y cais hwn gan yr Awdurdod yn ei system cofnodion cyfrifiadurol. Defnyddir y wybodaeth a roddwyd o bosibl at ddibenion gwirio a chadw data a gedwir ar gyfer swyddogaethau eraill y Cyngor. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys casglu ystadegau sydd i'w defnyddio i lunio dangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i werth gorau.

Dadlennir gwybodaeth yn ogystal i ymgymerydd statudol, yr heddlu ac awdurdodau, cyrff a sefydliadau perthnasol eraill, mewn perthynas â'r mater penodol sy'n gymwys i'r cais hwn.

DDDDF PRIFFYRDD 1980 / ADRAN 184

DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWEITHIAU STRYD 1991 ADRANNAU 84/85/86

Daeth Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Stryd 1991 â rheoliadau, gweithdrefnau a Chodau Ymarfer statudol yn ei sgîl y bydd yn rhaid eu dilyn wrth gloddio'r briffordd. At ddiben Adran 86 y Ddeddf, bydd yn rhaid i waith o dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980 gydymffurfio â'r un gweithdrefnau ac arferion statudol ag a gynhwysir yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Stryd 1991.

Ystyrir bod gwaith o dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980 yn "waith priffyrdd mawr". O'r herwydd, bydd cyfeiriadau at yr Awdurdod Priffyrdd yn Adranau 84 ac 85 Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Stryd 1991 yn gyfeiriadau at berson heblaw'r Awdurdod Priffyrdd mewn perthynas â gwaith a wneir o dan Adran 184(9) Deddf Priffyrdd 1980.

Yn unol â hynny, lle effeithir ar gyfarpar Stryd yr ymgymerydd gan y gwaith uchod, gall yr ymgeisydd roi Rhybudd yn unol ag Adran 85 Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Stryd 1991. Bydd y gweithdrefnau fydd angen eu dilyn mewn perthynas â'r cyfarpar, gan gynnwys costau caniatadwy, wedi'u rhagnodi yn y Côd Ymarfer o'r enw 'Measures Necessary Where Apparatus Is Affected By Major Works (Diversionary Works).

Rhaid peidio â gadael cerbydau ar y llwybrau troed; gallai hyn gael ei ystyried yn drosedd o dan Adran 137 o Ddeddf Priffyrdd 1980, Cosb am rwystro bwriadol.

Cyfeiriwch at y tabl canlynol o ran y meintiau lleiaf posibl sy'n ofynnol ar gyfer parcio:

1. Car: 4.8 metr x 2.6 metr
2. Cerbyd y gyrrwr anabl: 4.8 metr x 3.6 metr
3. Faniau Ysgafn: 5.5 metr x 2.6 metr

Lle bydd person yn bwriadu gwneud y gwaith a ddisgrifir yn y cais, gall yr Awdurdod Priffyrdd roi caniatâd i'r gwaith gael ei wneud yn unol â'r planiau a gymeradwyir ac amodau'r caniatâd, gan gwblhau'r tystysgrifau canlynol yn unol â'r gofyn.

RHEOLIADAU PERTHI 1997

Daeth y Rheoliadau Perthi i rym ar 1 Mehefin 1997. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r holl berthi rhwng caeau, a rhwng caeau a ffyrdd. Maent hefyd yn berthnasol i berthi o amgylch coedwigoedd. Nid ydynt yn berthnasol i berthi o amgylch gerddi. Os nad ydych yn sicr a yw'r Rheoliadau Perthi'n berthnasol i'ch tir, neu i'ch prosiect, dylech gysylltu â Rosie Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy ffonio 01267 228727, rhwng dydd Llun a dydd Iau. Os ydych yn gwneud cais am Ganiatâd Cynllunio, sicrhewch y rhoddir sylw llawn i'r holl faterion yn ymwneud â pherthi yn y cais hwnnw.

O dan y Rheoliadau hyn:

Paragraff 7(1) - Mae unrhyw un sy'n gwaredu perth, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, neu sy'n achosi neu'n caniatáu i rywun arall ei gwaredu, yn groes i reoliadau, yn euog o drosedd.

Gall unigolyn sy'n euog o drosedd o dan baragraff 7(1) fod yn agored i:

- a) ddirwy nad yw'n fwy na'r mwyafswm statudol (£5,000 ym mis Mai 1997), os ceir collfarn ddiannod yn ei erbyn; neu
- b) ddirwy, os yw'n cael collfarn neu dditiad.

Yn ogystal, os yw'n ymddangos i Awdurdod Cynllunio Lleol fod perth neu berthi wedi'u gwaredu yn groes i'r Rheoliadau (p'un a ddygir achos troseddol ai peidio), gall yr Awdurdod gyflwyno hysbysiad i'r perchennog gan ei gwneud yn ofynnol iddo blannu perth/perthi, gan nodi lleoliad a rhywogaethau'r llwyni a'r coed sydd i'w plannu, a'r cyfnod ar gyfer gwneud y gwaith plannu.

TYSTYSGRIF INDEMNEDD YSWIRIANT

Bydd yr ymgeisydd yn indemneiddio'r Cyngor ac yn parhau i'w indemneiddio rhag unrhyw hawliad sy'n codi o anaf, difrod neu golled a achosir gan y gwaith a ganiateir gan y caniatâd neu gan berson sy'n cyflawni'r gwaith a ganiateir gan y caniatâd. Bydd yr indemnedd hwnnw fel ag a ofynnir gan y Cyngor a bydd gofyn i'r ymgeisydd ddangos Tystysgrif Yswiriant gyflawn fel tystiolaeth bod yr yswiriant angenrheidiol wedi'i sicrhau.

TYSTYSGRIF GWAREDU GWASTRAFF

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod deunydd gwastraff o'r safle y cyfeirir ato yn y caniatâd yn cael ei waredu ar safleoedd sydd wedi'u trwyddedu yn unol â deddfwriaeth gwaredu gwastraff gyfredol ac yn unol ag amodau a thelerau'r trwyddedau hynny. Bydd gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno Tystysgrif Gwaredu Gwastraff gyflawn ar gyfer pob safle y bwriada eu defnyddio i waredu'r deunydd gwastraff y cyfeirir ato yn y caniatâd.

FFI'R DRWYDDED

Sylwch fod taliad ffi'r drwydded ar gyfer y drwydded yn unig. Bydd yn ofynnol ichi benodi Contractwr Tarmac sy'n gymwys mewn Gwaith Stryd I wneud y gwaith ar eich cost chi, a hynny cyn pen 6 mis o dyddiad y drwydded.